HYBU AC AMDDIFFYN

Yn ogystal â chynorthwyo'r Frenhines wrth iddi gyflawni ei dyletswyddau fel Pennaeth y Wladwriaeth a gweithredu fel entrepreneur elusennol, mae Tywysog Cymru hefyd yn ceisio hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth dragwyddol y wlad. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys tynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb ei gefnogaeth, gael ychydig iawn o sylw, cynorthwyo cymunedau gwledig Prydain, annog pobl i ffermio'n gynaliadwy, ac annog pobl o wahanol ffydd a chymunedau i fod yn fwy goddefgar a dod i ddeall ei gilydd yn well.

TYNNU SYLW AT RAI MATERION

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, aeth Tywysog Cymru, gyda chymorth Duges Cernyw, ati unwaith eto i geisio hybu ac amddiffyn yr agweddau gorau ar Brydain a'i phobl. Mae'r gwaith yn aml yn golygu gweld y Tywysog ei hun yn symbylu wrth awgrymu newidiadau, wrth greu proses o gyd-drafod, neu wrth dynnu sylw at faterion sydd heb gael sylw.

Cyflawniadau a gwasanaeth

Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau i gydnabod gwaith y gwasanaethau brys, ac ym mis Gorffennaf 2007 yn Llundain cyflwynodd y Tywysog y gwobrwyon yn ystod y 12fed seremoni i wobrwyo'r heddlu am eu dewrder. Cafodd 72 o heddweision eu henwebu, ac enillydd y brif wobr i'r swyddog dewraf oedd PC Geoffrey Hince o Fanceinion a aeth ati i daclo dau leidr arfog a oedd wrthi'n dwyn o swyddfa bost, er nad oedd ar ddyletswydd ar y pryd.

Yn ystod y digwyddiad, soniodd Ei Uchelder Brenhinol am yr wyleidd-dra sydd mor nodweddiadol o'r swyddogion sy'n derbyn gwobrwyon: "Byddwn ni'n eu clywed yn dweud mai dim ond gwneud eu gwaith yr oedden nhw. Efallai fod hynny'n wir, ond mae'n swydd eithriadol ac maen nhw'n bobl eithriadol."

Mae Eu Huchelderau Brenhinol hefyd yn cymryd rhan mewn ymrwymiadau sy'n tynnu sylw at waith gwirfoddolwyr ar draws y DU. Ym mis Rhagfyr 2007, cafodd Duges Cernyw gyfle i gwrdd â gwirfoddolwyr sy'n gweithio i helpu pobl ddigartref yn ystod ymweliad â chanolfan y mae'r elusen Emmaus yn ei rhedeg yn Ne Llundain. Mae Ei Huchelder Brenhinol wedi bod yn llywydd Emmaus er 2006, ac yn ystod ei thaith o gwmpas y ganolfan cafodd cyfle i gwrdd ag Elizabeth Harrington a ddywedodd bod y ffaith fod y Dduges wedi ymweld â'r ganolfan yn "hyfryd" gan y byddai'r ymweliad yn helpu i hybu gwaith yr elusen: "Mae gwir angen gwneud hynny," dywedodd.

Cymunedau gwledig, ffermio a bwyd

Fel ffermwr ei hun, mae'r Tywysog yn ymboeni'n ddwys am gefn gwlad Prydain ac am les y rheini sy'n byw ac yn gweithio ynddo. Mae cynnal sector amaethyddol iach yn hanfodol i'r wlad, nid dim ond am fod y dirwedd a'r dull o'i rheoli'n dibynnu ar y wybodaeth mae cymunedau ffermio wedi'i chasglu dros y canrifoedd, ond hefyd am fod natur gymdeithasol cefn gwlad yn dibynnu ar sylfaen ffermio gadarn.

Mae gan dafarnau gwledig rôl bwysig i'w chwarae wrth gynnal y sylfaen honno, a bu menter "*Pub is the Hub*" y Tywysog ar waith am chwe blynedd yn annog bragdai, perchnogion tafarnau, dalwyr trwydded a chymunedau lleol i ddefnyddio tafarnau fel ffordd o wella gwasanaethau gwledig fel siopau a swyddfeydd post.

Aeth Ei Uchelder Brenhinol ym mis Mawrth 2008 i weld un o'r tafarnau yn y cynllun yn Ravenstonedale yng Nghymbria. Aeth Hilary Benn, Ysgrifennydd yr Amgylchedd, gyda'r Tywysog ac fe gafodd y ddau gyfle i glywed Alan a Louise Dinnes, landlordiaid y *Black Swan*, yn disgrifio sut mae'r dafarn wedi mynd yn rhan annatod o gymuned y pentref anghysbell ers i ystafell wely ar y llawr gwaelod gael ei throsi'n siop bentref.

Fel un sy'n dadlau o blaid bwyta'n iach a phrynu bwyd Prydeinig lleol, cytunodd Tywysog Cymru i weithredu fel llywydd y Flwyddyn Bwyd a Ffermio, ac fe lansiodd yr ymgyrch ym mis Medi 2007. Nod yr ymgyrch yw ailgysylltu plant â bwyd a chefn gwlad trwy eu hannog i dyfu eu bwyd eu hunain ac i ymweld â ffermydd lleol.

Ym mis Tachwedd 2007, aeth Tywysog Cymru a Duges Cernyw i ymweld â Jesus House yn Brent Cross, Llundain, i dalu teyrnged i gyfraniad eglwysi Mwyafrifoedd Du at fywyd y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal â chael eu cyflwyno i wirfoddolwyr, staff ac aelodau o'r gynulleidfa, cafodd y Tywysog gyfarfod preifat gydag Esgob Llundain ac 20 o weinidogion mewn eglwysi Mwyafrifoedd Du i drafod materion ffydd a'r posibilrwydd o weld yr eglwysi'n cydweithredu mwy â The Prince's Trust.

Wrth annerch y gynulleidfa, canmolodd Ei Uchelder Brenhinol waith cymunedol ac elusennol yr eglwys. Dywedodd wrthyn nhw: "Rydych chi i gyd yn enghraifft wych o sut y gall cymaint o bobl y mae eu teuluoedd yn tarddu o wledydd y Gymanwlad roi bywyd newydd i'r eglwys Gristnogol yn y Deyrnas Unedig, gan gwblhau'r cylch a ddechreuodd y cenhadon o Brydain flynyddoedd maith yn ôl."

"Byddwn ni'n eu clywed yn dweud mai dim ond gwneud eu gwaith yr oedden nhw. Efallai fod hynny'n wir, ond mae'n swydd eithriadol ac maen nhw'n bobl eithriadol."
Tywysog Cymru'n siarad ym mis Gorffennaf 2007 yn ystod y 12fed seremoni flynyddol i wobrwyo'r heddlu am eu dewrder.

Fel rhan o'r lansiad, gwahoddwyd tua 50 o fyfyrwyr o Goleg Cymunedol Oathall yng ngorllewin Sussex ac Ysgol Gynradd Avening yn Tetbury i fynd ar daith o gwmpas fferm y Tywysog, Duchy Home Farm. Cawson nhw gyfle yno i weld sut mae gwneud rholiau bara, gan ddechrau yn y dechrau un yn malu eu blawd eu hunain. Dywedodd Ei Uchelder Brenhinol fod y Flwyddyn Bwyd a Ffermio'n hynod o bwysig i blant am ei bod yn gyfle "i'w hannog i werthfawrogi bwyd a'r dulliau o'i gynhyrchu, a'u hailgysylltu am weddill eu hoes â Natur er mwyn iddyn nhw ddod i ddeall pam y mae hi mor werthfawr i iechyd a lles pob un ohonon ni."

Ffydd a chymunedau ethnig

Bu annog pobl o wahanol gymunedau a ffydd ym Mhrydain i fod yn fwy goddefgar yn un o nodweddion gwaith y Tywysog ers tro byd. Ym mis Tachwedd 2007, aeth gyda Duges Cernyw i Chinatown yn Llundain i gwrdd ag aelodau o'r gymuned Tsieineaidd lwyddiannus sy'n byw yno. Treuliodd Eu Huchelderau Brenhinol ddwy awr yn y strydoedd llawn dop, gan alw mewn popty, archfarchnadoedd a bwyty Tsieineaidd, a chael eu diddanu gan ddawns draddodiadol Tsieineaidd y llew wrth iddyn nhw sefyll o dan y dwsinau o lusernau coch ac aur a oedd yn hongian dros Gerrard Street yn Soho.

Mae ymwneud y Tywysog â'r gymuned Tsieineaidd yn cynnwys gweld ei Sefydliad er yr Amgylchedd Integredig yn gweithio gyda Chyngor Dinas Westminster a'r gymuned leol i ddod o hyd i ffyrdd o adeiladu ar y gwelliannau diweddar yn Chinatown trwy hybu dulliau pensaernïol traddodiadol Tsieineaidd a thrwy fanteisio ar arbenigedd a sgiliau crefftwyr o Tsieina a'r DU. Mae'r Sefydliad wrthi'n gweithio ar gynlluniau'r gwelliannau gydag ysgol bensaernïaeth Prifysgol Tsing Hua yn Beijing.

Gohebiaeth a chyfarfodydd

Yn ogystal â thynnu sylw'n gyhoeddus at faterion na fyddai fel arall yn cael sylw efallai, mae Ei Uchelder Brenhinol, fel aelod o'r Cyfrin Gyngor, yn ysgrifennu'n breifat at Weinidogion y Llywodraeth, arweinwyr busnesau a phobl ddylanwadol eraill, ac yn eu cwrdd. Mae pynciau'r llythyrau a'r sgyrsiau'n amrywiol iawn ac yn cynnwys rhai y mae pobl eraill wedi'u codi neu rai sydd o ddiddordeb i'r Tywysog ei hun yn sgil ei gyfarfodydd a'i ymweliadau ar draws y DU a thramor. Wrth wneud hyn, mae'r Tywysog bob amser yn gofalu osgoi materion y pleidiau gwleidyddol a rhai sy'n wleidyddol sensitif.